**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-05-02(p.3)**

**Dyddiad: Dydd Iau 14 Chwefror 2002**
**Lleoliad: Theatr Brycheiniog, Aberhonddu**
**Teitl: Rhoi Diamorffin (heroin) ar bresgripsiwn i gamddefnyddwyr sylweddau**

**Pwrpas**

1. Rhoi cyngor i'r Pwyllgor ynghylch rhoi diamorffin (heroin) ar bresgripsiwn i gamddefnyddwyrsylweddau yng Nghymru.

**Gweithredu**

2. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r papur hwn sy'n egluro'r sefyllfa o ran rhoi diamorffin (heroin) ar bresgripsiwn i drin y rhai sy'n gaeth i gyffuriau.

**Crynodeb**

3. Ar ddiwedd 2001, cafwyd adroddiadau yn y cyfryngau ynghylch prawf yn y Swistir i roi diamorffin ar bresgripsiwn i rai sy'n gaeth i heroin. Mewn datganiad i'r Pwyllgor Materion Cartref, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cartref y byddai'r Adran Iechyd yn cynnull grwp arbenigol (ym mis Chwefror 2002) i lunio meini prawf clinigol ar gyfer rhoi diamorffin ar bresgripsiwn.

4. Yn sgil y digwyddiadau hynny, cafwyd peth dryswch ynghylch y sefyllfa gyfredol yn y DU, a bu rhai (y cyfryngau yn amlwg) yn galw ar i heroin fod ar gael yn gyfreithiol ar bresgripsiwn. Mae diamorffin wedi bod ar gael ar bresgripsiwn yn y DU gydol yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain. Er hyn, ymarferwyr meddygol â thrwydded briodol oddi wrth y Swyddfa Gartref yn unig a all ei roi ar bresgripsiwn. Rhaid i drwydded o'r fath gael ei hawdurdodi gan Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd lleol a chan un o gynrychiolwyr Prif Swyddog Meddygol Cymru cyn i'r Swyddfa Gartref ei rhoi. Yn ystod y 1960au diamorffin oedd y dewis cyntaf fel cyffur i drin y rhai a oedd yn gaeth i heroin (y 'system Brydeinig'). Er hyn, yn sgil ymchwil i fethadôn a wnaed yn bennaf yn yr Unol Daleithiau, dewisir cymysgedd methadôn geneuol bellach i drin y rhai sy'n gaeth. Ni ddefnyddir diamorffin ond ar gyfer y rheini na all methadôn eu helpu.

**Ystyried**

5. Nid yw'r dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd rhoi diamorffin ar bresgripsiwn yn gyflawn. Yn ddiweddar cafwyd trafodaeth eang ar y mater mewn cyfnodolion meddygol. Dengys y dystiolaeth orau y gall diamorffin helpu'r rhai nad yw triniaethau eraill wedi llwyddo ar eu cyfer. Mae angen mwy o ymchwil i'r mater.

6. Nid oes data canolog ffurfiol yn cael ei gasglu ynghylch nifer y rhai sy'n gaeth i heroin sy'n cael eu trin â diamorffin. Clinigwyr unigol sy'n penderfynu mewn achosion penodol a fyddai'n briodol defnyddio diamorffin. Mae gan dri ymarferwr yng Nghymru drwydded i roi diamorffin ar bresgripsiwn i drin y rhai sy'n gaeth i heroin ac mae tua thri deg person sy'n gaeth i heroin yng Nghymru'n cael triniaeth o'r fath.

7. Mae goblygiadau ariannol yn sgil defnyddio diamorffin yn hytrach na methadôn geneuol. Er hyn, mae'n amlwg bod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth yn dangos gwerth defnyddio cymysgedd methodôn i drin y rhai sy'n gaeth i heroin (gan ddefnyddio diamorffin mewn achosion eithriadol).

8. Ar hyn o bryd mae llai na 1.7% o'r presgripsiynau ar gyfer y rhai sy'n ddibynnol ar gyffuriau yn bresgripsiynau diamorffin. Ychydig iawn o ymchwil gadarn sydd wedi'i wneud yn y DU ac mae angen ymchwilio ymhellach i fanteision a pheryglon caniatáu i bresgripsiynau chwistrelladwy fod ar gael i fwy o bobl. Efallai y byddai rhoi mwy o ddiamorffin ar bresgripsiwn yn peri problemau'n ymwneud â pharhau i chwistrellu ac mae'n bosibl y byddai'n peri i fwy o bobl chwistrellu heroin ac i'r broblem bara'n hwy ymhlith y boblogaeth. Ymhlith y materion eraill sy'n codi y mae diogelwch y defnyddiwr gan fod chwistrellu yn peri bod mwy o berygl i rywun farw trwy ymwasgiad resbiradol. Mae'r posibilrwydd y byddai'r diamorffin yn mynd i'r farchnad ddu hefyd yn peri pryder.

9. Bydd arbenigwyr y DU yn cwrdd ym mis Chwefror 2002 i ddiweddaru'r canllawiau ar y mater i sicrhau bod yr arfer yn amrywio cyn lleied â phosibl ledled y wlad. Gwahoddir cynrychiolwyr o Gymru, gan gynnwys y Cynulliad Cenedlaethol, i'r digwyddiad hwn.

10. Ym 1999 cyhoeddwyd *Drug Misuse and Dependence – guidelines on clinical management* gan yr Adran Iechyd, Adran Iechyd Swyddfa'r Alban, y Swyddfa Gymreig ac Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Gogledd Iwerddon. Mae'r ddogfen yn amlinellu materion sy'n ymwneud â rhoi fformiwleiddiadau i'w chwistrellu ar bresgripsiwn, gan gynnwys diamorffin. Mae'r canllawiau yn egluro y dylid gosod targedau penodol a'i bod yn debygol y byddai angen neilltuo llawer o adnoddau yn y tymor hir. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad A.

**Cydymffurfio**

11. Lluniwyd y cyflwyniad hwn er mwyn hysbysu aelodau'r Pwyllgor ynghylch y sefyllfa o ran rhoi diamorffin ar bresgripsiwn i drin y rhai sy'n gaeth i gyffuriau, ac nid oes iddo unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol.

**Argymhelliad**

12. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r papur hwn.

**Jane Hutt**

**Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cyswllt**

Michael Jones

Swyddog Datblygu Gwasanaeth

Y Gangen Ymyrraeth ym maes Camddefnyddio Sylweddau

Cyfarwyddiaeth y Cymunedau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

Ffôn: Caerdydd (029) 2082 6255 Ffacs: Caerdydd (029) 2082 5473

E-bost: mike.jones5@wales.gsi.gov.uk